**Y Pwyllgor Busnes**
—
**Business Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddBusnes@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddBusnes
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddBusiness@senedd.wales
senedd.wales/SeneddBusiness
0300 200 6565

Mark Isherwood AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

22 Medi 2021

**Ymateb i argymhellion Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd**

Annwyl Mark

Gwnaeth Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Bumed Senedd ddau argymhelliad i Bwyllgor Busnes y Chweched Senedd fel rhan o'i waith craffu ar weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015: *Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yma.*

Rydym yn falch o allu derbyn y ddau argymhelliad. Mae ein hymateb llawn i'r argymhellion hynny wedi'i amgáu.

Yn gywir

**Elin Jones AS**
Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

| Argymhellion (o *Cyflawni ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol: y stori hyd yn hyn*) |
| --- |
| **Argymhelliad 13.** Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd sicrhau bod strwythur Pwyllgor y Senedd yn hwyluso gwaith craffu effeithiol ar ddeddfwriaeth fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a materion eraill sy'n pontio meysydd polisi a phortffolios Gweinidogol.<br>**Argymhelliad 14.** Dylai Pwyllgor Busnes y Chweched Senedd roi ystyriaeth benodol i sut y dylid ymgymryd â gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyfeirio’r corff hwnnw o waith at Bwyllgor neu fforwm priodol yn unol â hynny. |
| Ymateb gan y Pwyllgor Busnes |
| **Rydym yn derbyn argymhellion 13 a 14.**<br>Ceisiwyd mynd i'r afael â'r argymhellion hyn yn y cynigion a wnaethom i'r Senedd ynghylch sefydlu pwyllgorau.<br>Mae cylch gwaith y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnwys *"gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015"* a'r gallu i graffu ar unrhyw faes polisi o safbwynt y materion trawsbynciol o fewn ei gylch gwaith, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): gydraddoldeb a hawliau dynol, a gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.<br>Er mai mater i'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yw penderfynu ar y ffordd orau o gyflawni ei gylch gwaith, credwn y bydd pwysleisio'r gallu i weithio ar draws ffiniau polisi yn sicrhau y gellir mynd ar drywydd pob agwedd ar y Ddeddf heb gyfyngiadau. Ein gobaith hefyd yw bod y dull hwn yn gweithredu fel catalydd ar gyfer mwy o gydweithio rhwng pwyllgorau wrth fynd i’r afael â heriau craffu trawsbynciol.<br>Rydym wedi sicrhau bod capasiti o fewn amserlen y pwyllgorau er mwyn helpu i hwyluso cydweithio rhwng pwyllgorau. Mater i bwyllgorau nawr yw penderfynu a ydynt am fanteisio ar y cyfle hwn a sut y maent am wneud hynny.<br>Gobeithio y bydd gwneud un pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar weithredu'r Ddeddf yn sicrhau bod gwaith craffu ôl-ddeddfwriaethol penodol yn cael ei roi iddo, ond nid oes angen gwneud hyn ar wahân i waith pwyllgorau eraill.<br>Roedd hyblygrwydd yn egwyddor sylfaenol wrth ddylunio'r system bwyllgorau. Eu harwain yn hytrach na’u rhwymo gan eu cylchoedd gwaith a gaiff y pwyllgorau, a gallant fynd ar drywydd materion trawsbynciol lle |

bynnag y gallent arwain o ran polisi. Er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud yn effeithiol, mae cyfathrebu rhwng pwyllgorau yn hanfodol. Rydym yn gosod y disgwyliad hwn yn ein hadroddiad *Pwyllgorau'r Chweched Senedd: Teitlau a cylchoedd gorchwyl.*

Rydym hefyd wedi cytuno i gynnig bod y Senedd yn sefydlu Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog gyda chylch gwaith trawsbynciol i "*graffu ar y Prif Weinidog ar unrhyw fater sy'n berthnasol i'r gwaith o arfer swyddogaethau Llywodraeth Cymru."* Fel yn y Bumed Senedd, bydd Fforwm y Cadeiryddion yn darparu lle gwerthfawr i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd drafod a mynd i'r afael â heriau craffu trawsbynciol.